

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol
Dyddiad:	17/09/2024
Pwnc:	Adroddiad Perfformiad Blynyddol 23/24
Pwrpas yr Adroddiad:	Adroddiad blynyddol
Cadeirydd Sgrwtini:	Cyng Douglas Fowle
Aelod(au) Portfolio:	Cyng Carwyn E Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Carys Edwards
Awdur yr Adroddiad:	Gwyndaf Parry
Rhif Ffôn:	01248 752111
E-bost:	GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	n/a

1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor argymhell i'r Cyngor Sir:

- cytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad 2023/24 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny ac iddynt ei fabwysiadu.

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae'r Adroddiad Perfformiad / Llesiant Blynyddol wedi'i ddrafftio i hysbysu ei ddarllenwyd o berfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn honno.

Mae'r adroddiad yn rhoid diweddariad ar berfformiad y Cyngor, yn cynnwys, crynhoi:

- Dogfen Gyflawni Blynyddol 2023/24
- Cerdyn sgorio 2023/24

3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgrwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

- 3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]
- 3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]
- 3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]
- 3.4** Sgrwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]
- 3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
 - Hirdymor
 - Atal
 - Integreiddio
 - Cydweithio
 - Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

3.6 Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. Mae'r adroddiad yn cyflwyno blwyddyn o gyflawniadau nodedig sydd wedi cyfrannu at nifer o welliannau ar ein Ynys. Pa drefniadau sydd ar waith i hyrwyddo a rhannu'r cyflawniadau hyn ar draws yr Awdurdod a thu hwnt?
2. Gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/24, pa feysydd perfformiad penodol y dylid eu blaenoriaethu ar sail risg yn ystod 2024/25?
3. Mae'r adroddiad yn trafod mai'r prif reswm dros yr oedi cyn lansio'r Porth Tenantiaid Digidol oedd gwaith uwchraddio TG ychwanegol yr oedd ei angen ar y tîm Tai. Pa ffactorau eraill (os o gwbl) a gyfrannodd at yr oedi hwn a pha ddiweddariadau cyfathrebu a ddarparwyd i denantiaid yn eu hysbysu am yr oedi cyn lansio'r porth?
4. Mae'r adroddiad yn amlgu gohiriwyd gosod pontynau glanio newydd ym Mhorth Amlwch a Phier San Siôr. Pa resymau gyfrannodd at y penderfyniad hwn?
5. Mae'r argyfwng costau byw wedi creu her ariannol sylweddol i'r Cyngor. Sut mae'r her hon yn cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol?

5 – Cefndir / Cyd-destun

5.1 Yn unol a'r cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi Adroddiad Perfformiad (Lleisiant) Blynyddol. Mae'r ddogfen hon yn ddogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor.

5.2 Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Hadroddiad Perfformiad / Lleisiant sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2023/24

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Amh.

6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

Amh.

6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Amh.

7 – Goblygiadau Ariannol

Gall oblygiadau ariannol cyrhaeddiad yn erbyn amcanion ei gyfarch yn natganiad cyfrifon y Cyngor 2023/24.

8 – Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/24

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

- Cynllun y Cyngor 2023-2028
- Dogfen Gyflawni Flynyddol 2023/24



Adroddiad Blynyddol Perfformiad a Llesiant 2023/24

Paratowyd gan – Y Gwasanaeth Trawsnewid

Dyddiad Cyhoeddi – Medi 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg / This document is available in English


Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Perfformiad a Llesiant blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2023/24 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf mewn cydweithrediad â'n cymuned wydn.


Mae'r adroddiad yn cyflwyno blwyddyn o gyflawniadau nodedig sydd wedi cyfrannu at nifer o welliannau ar ein hynys ac yn rhoi sylfaen gadarn i gefnogi Cynllun y Cyngor er gwaethaf yr heriau economaidd sydd o'n blaenau.

Isod ceir rai o'r uchafbwyntiau allweddol ym mherfformiad eleni. I gael gwybod sut y byddwn yn monitro perfformiad ewch i www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad

Cynnydd yn erbyn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol



Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2023/24



Datblygiadau yn erbyn chwe amcan strategol y Cyngor

Mae diweddariadau yn erbyn pob blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau Cynllun y Cyngor 2023/24 yn cael eu trafod yn yr adran nesaf hon o'r adroddiad.

Mae adroddiadau cynnydd yn erbyn y camau allweddol a gymerwyd ar y cynllun gwaith presennol i'w gweld isod:



Yr Iaith Gymraeg

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
<p>a) Gweithredu cynllun gwaith Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), gan ddefnyddio dull integredig ac adrodd ar ei gyflawni</p>	<p>Yn ystod y flwyddyn hon, mae ysgolion wedi cael cefnogaeth y Gwasanaeth Dysgu, y canolfannau iaith, y Siarter Iaith a GwE i sicrhau darpariaeth o safon sy'n adlewyrchu categorïau ysgolion ac anghenion plant y sir.</p> <p>Datganodd Ysgol Uwchradd Caerdybi ei bwriad i symud tuag at ysgol cyfrwng Cymraeg (categori 3) erbyn 2029 ac mae bwrdd prosiect CSGA wedi'i sefydlu i gefnogi'r ysgol.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor Sgriwtini Partnership ac Adfywio adroddiad cynnydd ar CSGA ym Mehefin 2024.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>
<p>b) Cydweithio i hyrwyddo ap OgiOgi fel adnodd defnyddiol i helpu rhieni a gofawyr i wella eu hyder a defnyddio mwy o Gymraeg gyda'u plant</p>	<p>Mae Swyddog Marchnata a gyflogir gan Menter Môn ac a ariennir hyd at fis Rhagfyr 2024 wedi'i phenodi yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith hyrwyddo ar y gweill.</p> <p>Mae ap OgiOgi yn cynnig trysorfa o wybodaeth gyda mwy na 400 o ddolenni defnyddiol i adnoddau lleol a chenedlaethol - gan gynnwys gwybodaeth am feichiogrwydd, iechyd, gwasanaethau, hawliau, lles, a chyfleoedd hamdden. Mae hefyd yn cynnwys adran ar ddatblygiad plant ac arweiniad ar fanteision dwyieithrwydd a defnyddio'r Gymraeg o'r crud. Mae yna hefyd ddigonedd o weithgareddau hwyliog i blant a rhieni eu mwynhau.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
<p>c) Sicrhau bod mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg ar gael i staff a gweithio gyda Phrifysgol Bangor i dreialu'r rhaglen ARFer, sy'n ceisio newid arferion iaith fel bod cydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi datblygu'r arfer o ddefnyddio'r Saesneg) yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith</p>	<p>Tri dosbarth Cymraeg i staff yn cael eu cynnal ar lefel mynediad, sylfaen a chanolradd ers Medi 2023.</p> <p>Nid oedd y brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor dreialu ARFer yn ystod y flwyddyn ond bu'r Cyngor yn cydweithio â'r brifysgol i gynnig mwy o gyfleoedd ymarfer i ddysgwyr lefel uwch.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>
<p>d) Sicrhau, drwy asesiad blynyddol ac arolygon siopwyr cudd, ein bod yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg</p>	<p>Asesodd y Tîm Rheoli Corfforaethol gydymffurfiaeth y Gwasanaethau â dyletswyddau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Roedd sicrwydd cyffredinol bod gwasanaethau yn bodloni gofynion y safonau a'n polisi iaith. Daw hyn yn bennaf oherwydd bod ein swyddogion yn gallu'r Gymraeg a lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r gofynion yn ogystal â chanlyniadau ymarfer siopwyr cudd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Nodwyd rhai heriau, yn benodol anawsterau wrth recriwtio swyddogion cymwys i swyddi o natur arbenigol. Ceir heriau hefyd o ran allanoli gwasanaethau i gwmnïau nad ydynt yn deall natur ddwyieithog gwaith y Cyngor. Mae cydweithio â chwmnïau preifat, sy'n darparu arbenigedd technegol yn bennaf, yn aml yn golygu ymdrech ychwanegol sylweddol gan swyddogion y Cyngor i sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio'n ddwyieithog.</p> <p>Ceir rhagor o wybodaeth am gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg yn yr adroddiad blynyddol.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
e) Gweithio gyda Fforwm Iaith Ynys Môn i ddarparu dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned ac adnabod ffynonellau i ariannu gweithgareddau cymunedol	<p>Mae sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn rhan annatod o hunaniaeth, diwylliant a threftadaeth yr ynys yn parhau i fod yn flaenllaw yng ngwaith Fforwm Iaith Ynys Môn.</p> <p>Un o brif gyfrifoldebau'r fforwm yw cadw golwg strategol ar y Gymraeg mewn addysg ac, eleni, hefyd, mae'r fforwm wedi sefydlu is-grwpiau thematig i sicrhau bod ei dargedau'n cael eu cyflawni ar y cyd. Y targedau yw: 'Y Gymraeg yn y gweithle', 'Trosglwyddo teulu ac iaith', 'Cymuned a phobl ifanc', 'Addysg' a 'Seilwaith a gwaddol'. Crynhowyd adnoddau i gyfoethogi'r gwaith oedd eisoes yn digwydd ac i ychwanegu gwerth. Mae modd cael rhagor o wybodaeth yma.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
f) Hyrwyddo gwersi Cymraeg ymhlith rhieni, newydd-ddyfodiaid a ffoaduriaid a sicrhau bod deunyddiau dysgu'r Gymraeg ar gael ar ein gwefan	<p>Mae pecynnau croeso ar gyfer newydd-ddyfodiaid a ffoaduriaid wedi cael eu dosbarthu ledled cymunedau Ynys Môn yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Mae gwybodaeth wedi'i diweddarau am y Gymraeg ym Môn gan gynnwys sut a lle i ddysgu Cymraeg, Cymraeg mewn addysg, Cymraeg mewn busnes, enwau lleoedd a gwybodaeth ddefnyddiol arall ar wefan y Cyngor.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
g) Darparu adnoddau ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau ar Caru Iaith	Mae adnoddau mewnwyd Caru Iaith ar gyfer ysgolion a lleoliadau wedi eu diweddarau yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru am y flwyddyn.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
h) Bydd llyfrgelloedd yn gweithio gyda darparwyr addysgu a dysgu i gynnig cyfleoedd i drigolion ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg yn eu cymunedau	<p>Wrth weithio mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai, mae'r Cyngor wedi –</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi anghenion dysgu Cymraeg y gymuned • cynnal digwyddiad cwrdd â'r prynwr ar gyfer darparwyr posibl • sefydlu fframwaith i is-gontractio darparwyr i ymgymryd â'r cyrsiau • Diweddarau'r gwahanol ffyrdd o ddysgu Cymraeg yn y gymuned ar wefan dysgucymraeg.cymru <p>Y bwriad yw ei weithredu ym Medi 2024</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
i) Sefydlu a darparu grant newydd Cymunedau Mentrus Arfor ar Ynys Môn, a sicrhau digon o gapasiti ar gyfer ei gyflawni'n effeithiol	Mae 14 o geisiadau wedi'u cymeradwyo gyda chyfanswm grantiau gwerth £550,000 wedi'u dyfarnu.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
j) Cymryd rhan mewn cynlluniau a rhaglenni rhanbarthol Arfor 2 a gwneud y mwyaf o'r buddion i Ynys Môn.	Mae pedwar prosiect ar Ynys Môn wedi eu cymeradwyo drwy'r Gronfa Her a'u gweithredu, gan gynnwys rhai gan M-Sparc a chwmni Haia.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau



Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
a) Ymgynghori â'r cyhoedd ar ddyfodol Cyfleoedd Dydd ar yr ynys gyda'r nod o gryfhau cyfleoedd cymunedol trwy weithio ac integreiddio gyda'n Hybiau Cymunedol	<p>Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus gyda defnyddwyr a thrafodaeth yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gymeradwyo argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn -</p> <p>Integreiddio defnyddwyr gwasanaeth o fewn y gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy'n mynd i weithgareddau i gael canlyniadau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd y darperir Gwasanaethau Dydd gyda phwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd a wneir o Morswyn wedi lleihau, dod a'r gwasanaeth presennol i ben. Datgan nad oes angen yr eiddo mwyach a gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan adrannau eraill. Os na nodir defnydd, gwerthu'r eiddo, a throsglwyddo'r derbynebaw i Adran y Gwasanaethau Oedolion. Sicrhau bod mesurau trosiannol ar gael i ddefnyddwyr a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei addasu i ddefnyddwyr dros dro. Sicrhau hefyd fod adnoddau/cyfleusterau yn y gymuned yn briodol ac yn cwrdd ag anghenion unigolion.</p>	Wedi'i gwblhau
b) Mapio'r holl weithgareddau a gwella gwybodaeth am ddata lleol i fynd i'r afael â thlodi ar yr ynys gan ganolbwyntio ar dlodi bwyd a thanwydd yn ogystal â lleihau digartrefedd a dyled	<p>Defnyddiwyd gweithgareddau a data i greu Dangosfwrdd Costau Byw sydd ar gael i staff a Chynghorwyr. Defnyddir y data hwn i helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a chânt eu diweddarau'n rheolaidd.</p> <p>Mae tudalen we sydd ar gael i'r cyhoedd ar gostau byw wedi'i diweddarau ar wefan y Cyngor. Arni mae gwybodaeth am sefydliadau a all helpu unigolion a theuluoedd, cyllid sydd ar gael tuag at gostau'r cartref a budd-daliadau, cymorth gyda gofal plant, gwybodaeth am ddigartrefedd, cymorth gydag iechyd meddwl a lles, a llawer mwy.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
c) Lansio'r Strategaeth Drws Cywir trwy ddatblygu ac ehangu'r trefniadau hwb cynnar yn broses cyfeirio fyw gan weithio mewn fforwm amlddisgyblaethol	<p>Mae gwaith wedi mynd rhagddo i roi'r Strategaeth Drws Cywir ar waith yn ystod 2023/24. Mae'r ganolfan ymyrraeth gynnar yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos i sicrhau y caiff cyfeiriadau eu trafod, a bod trefniadau'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer unigolion.</p> <p>Mae proses newydd hefyd ar gyfer plant ag awtistiaeth, neu sy'n aros am ddiagnosis swyddogol o awtistiaeth, wedi'i rhoi ar waith i symleiddio penderfyniadau ac ymyraethau.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
d) Datblygu cyfleoedd i bobl ag anghenion iechyd meddwl	Cynhaliwyd rhaglen lwyddiannus o weithgareddau ymyrraeth ar gyfer unigolion â diagnosis iechyd meddwl trwy gydol y flwyddyn. Sefydlwyd partneriaeth gydag Oriol Môn lle bu unigolion yn cynnal cyfres o ddosbarthiadau celf dros gyfnod o chwe wythnos, gyda'r gwaith celf a gynhyrchwyd ganddynt yn cael ei arddangos i bob ymwelydd ei weld.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
e) Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan trwy wella'r gwasanaeth a gynigir yn yr Hybiau Cymunedol Integredig gan gynnwys datblygu a darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar integreiddio a hygyrchedd	<p>Sefydlwyd canolfan dementia yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni.</p> <p>Mae sesiynau hyfforddi ar hygyrchedd ac integreiddio wedi'u cynnal mewn hybiau cymunedol ledled yr ynys.</p> <p>Cynhaliwyd sesiwn gyda'r Bws Dementia sy'n fodd i bobl brofi'r daith synhwyraidd o sut y gallai deimlo i fyw gyda dementia, er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddementia a sicrhau bod gwell cefnogaeth yn y gymuned.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
f) Cynyddu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol drwy'r fforymau Pobl Hŷn a Lleol fel y gall unigolion ddylanwadu'n gadarnhaol ar bolisiau a chyflawni gwasanaethau	<p>Cyfarfu fforwm pobl hŷn, a gydnabyddir yn ffordd effeithiol o sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed, yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn mewn fforymau cymunedol lleol, yn ogystal â'r fforwm ynys gyfan.</p> <p>Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau, hefyd, ar gyfer pobl dros 50 oed drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys dau ddiwrnod agored yng Nghaergybi a Llangefni i gynyddu ymwybyddiaeth a niferoedd i gymryd rhan.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
g) Sefydlu a Datblygu Rhwydwaith Oed-gyfeillgar a dod yn aelodau o Rwydwaith Byd-eang Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd (WHO).	Mae Ynys Môn wedi'i derbyn yn aelod swyddogol o Rwydwaith Byd-eang o Gymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys dros 1,400 o gymunedau mewn 51 o wledydd ar draws y byd. Yn aelod newydd o'r rhwydwaith, daw Ynys Môn yn rhan o fudiad byd-eang sy'n gweithio i greu cymunedau lle gall pawb yno edrych ymlaen at heneiddio'n dda.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
h) Adolygu'r opsiynau sydd ar gael i foderneiddio gwasanaethau byw â chymorth allanol a gweithio gyda darparwyr tai i sicrhau opsiynau llety addas	Mae adolygiad o'r opsiynau sydd ar gael i foderneiddio gwasanaethau byw â chymorth allanol wedi'i gynnal. Cynhaliwyd, hefyd, drafodaethau gyda darparwyr allanol a theuluoedd. Cymerodd y gwaith hwn fwy o amser nag a feddylwyd yn wreiddiol oherwydd gostyngiad yn y cyllid oedd ar gael a bod angen adolygu'r ddarpariaeth gyda rhai darparwyr allanol.	Gwaith yn parhau yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol am 24/25
i) Agor ein trydedd darpariaeth Cartref Clyd (Cartrefi Grŵp Bach).	Agorwyd trydydd Cartref Clyd yn Rhos-y-bol yn Awst 2023	Wedi'i gwblhau
j) Gweithio tuag at ddod yn Ynys sy'n ystyriol o drawma drwy sicrhau bod pum ysgol wedi'u hachredu yn Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma.	Mae llawer o weithgareddau wedi'u cynnal o ran yr Ynys sy'n Ystyriol o Drawma yn ystod y flwyddyn. Aeth dros 150 o staff i sesiynau hyfforddi gyda Dr Coral Harper ar drawma Defnyddiwyd arian o Gronfa Ffyniant Gyffredin fel bod Ynys Môn yr awdurdod cyntaf yn y DU i gynnal cwrs ar drawma yn benodol ar gyfer rhieni maeth. Hyfforddiant pellach i staff ysgol yn ogystal â llywodraethwyr ysgol	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
<p>k) Buddsoddi £1m yn adeiladau ein canolfannau hamdden a rheoli gwaith gosod cae 3G newydd yn Ysgol Uwchradd Bodedern</p>	<p>Mae gwaith gwella gwerth dros £1m wedi'i wario ar adeiladau canolfannau hamdden Ynys Môn drwy gydol y flwyddyn. Ymhlith y pethau y gwariwyd arnynt mae–</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cae 3G yn Ysgol Uwchradd Bodedern • Llawr newydd ei osod yn y brif neuadd, gwaith atgyweirio i'r cyrtiau sboncen, ffenestri newydd, atgyweirio to a gwelliannau i'r ystafelloedd newid yng Nghanolfan Hamdden Caergybi. • Mae gwaith helaeth wedi'i wneud yng Nghanolfan Hamdden Amlwch gyda buddsoddiad o hyd at £600,000 ar brosiectau amrywiol. Ymhlith y prosiectau mae ystafell newid gwlyb newydd i'r anabl, toiledau newydd, drysau awtomatig newydd, ffenestri newydd, gwaith to a lloriau newydd gan gynnwys llawr newydd yn y neuadd chwaraeon. • Llifoleuadau LED newydd ar gae 3G Plas Arthur, gan gynnwys ychwanegu dwy golofn newydd er mwyn cael mwy o orchudd. • Gwaith atgyweirio a chynnal a chadw amrywiol yng Nghanolfan Hamdden David Hughes 	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>
<p>l) Rhoi cyfleoedd nofio am ddim i ofalwyr ifanc a gweithio tuag at gynyddu nifer y plant sy'n cael gwersi nofio, wrth gynnal 500,000 o ymweliadau â'n canolfannau hamdden yn flynyddol</p>	<p>Bu 515,000 o ymweliadau i wneud gweithgareddau corfforol yn y canolfannau hamdden drwy gydol 2023/24.</p> <p>O'r ymweliadau hynny, cafodd bron i 1900 o blant a phobl ifanc wersi nofio gan staff MônActif.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
<p>a) Sicrhau bod Cwricwlwm i Gymru yn ei le ym mhob ysgol a bod systemau wedi'u datblygu i fesur effaith gwaith sy'n ymwneud â llesiant, cynhwysiant a lles ar blant, pobl ifanc a'r gweithlu.</p>	<p>Dilynir Cwricwlwm i Gymru ym mhob ysgol.</p> <p>Mae systemau digonol ar waith i sicrhau bod llesiant dysgwyr a'u cynnwys yn flaenoriaethau allweddol i'r Cyngor. Mae data i bawb yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Gwasanaeth Dysgu a'r Panel Craffu Addysg yn ogystal â diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gynnydd.</p> <p>Trefnwyd digwyddiad Iechyd a Llesiant ar gyfer staff ysgol Corn Hir gyda thua 70 o staff yn mynd i'r digwyddiad. Mae digwyddiad tebyg wedi'i gynllunio ar gyfer 24/25.</p>	<p>Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau</p>
<p>b) Sicrhau bod pob ysgol yn gallu cynnig prydau ysgol am ddim i bob disgybl cynradd fel rhan o gynllun Llywodraeth Cymru i roi prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd.</p>	<p>Mae pob ysgol gynradd yn rhoi prydau ysgol am ddim i ddisgyblion.</p> <p>Derbyniodd Ysgol Gynradd Bodffordd uned symudol newydd er mwyn trosglwyddo ystafell ddosbarth o'r prif adeilad. Bydd hyn yn fodd i'r hen ystafell ddosbarth gael ei defnyddio fel ffreutur ac i'r ysgol ddarparu ar gyfer mwy o ddisgyblion ar y tro.</p>	<p>Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau</p>
<p>c) Cryfhau trefniadau cydweithio integredig gyda gwasanaethau / asiantaethau allanol i gynnig cefnogaeth ac arweiniad i blant, pobl ifanc ac ieuencid Ynys Môn, mewn modd cynhwysol ac arloesol</p>	<p>Bu i'r berthynas a'r cydweithio rhwng gwasanaethau mewnol ac allanol â'r Cyngor gryfhau drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Mae peth o'r gwaith ynghylch Ynys sy'n Ystyriol o Drawma wedi'i ddiweddarau yn j uchod.</p> <p>Mae'r cydweithio gydag ysgolion a'r gwasanaeth ieuencid wedi'i gryfhau i nodi a gweithio gyda darpar fyfyrwyr NEET yn gynharach.</p> <p>Mae'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant (ADYaCh) yn parhau i weithredu'r Strategaeth Cynhwysiant ADY gan weithio ar y cyd â llawer o arbenigwyr allanol gan gynnwys Prifysgol Betsi Cadwaladr a SNAP Cymru.</p> <p>Mae gwaith yn parhau i gryfhau ymhellach y cymorth sydd ei angen ar ein plant a'n pobl ifanc.</p>	<p>Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau</p>

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
d) Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu arweinyddiaeth ar draws yr Ynys, mewn cydweithrediad â GwE	<p>Darparwyd llawer o gyfleoedd gyda GwE yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhaglen datblygu arweinyddiaeth i staff addysgu a datblygiad llywodraethwyr gyda llywodraethwyr ysgol.</p> <p>Yn dilyn penderfyniad cenedlaethol i ddirwyn i ben gonsortiw m rhanbarthol, gan gynnwys GwE, yn 24/25, ni fydd cyfleoedd pellach i ddatblygu arweinyddiaeth gyda GwE. Datblygir trefniadau amgen i gymryd lle'r hyn a gynigir gan GwE.</p>	Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau
e) Cyflwyno'r cynllun i ddenu cynorthwywyr addysgu i'r proffesiwn, gan gynnwys gweithio gyda'r coleg a darparu cyfleoedd hyfforddi lleol	Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses recriwtio newydd o fewn Addysg mewn perthynas â denu cynorthwywyr addysgu i'r proffesiwn o'r coleg.	Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau
f) Gweithredu'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Addysg Oedolion yn y Gymuned	<p>Wrth weithio mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai, mae'r Cyngor wedi –</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi anghenion dysgu Cymraeg y gymuned • cynnal digwyddiad cwrdd â'r prynwr ar gyfer darparwyr posibl • sefydlu fframwaith i is-gontractio darparwyr i ymgymryd â'r cyrsiau 	Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau
g) Ymgynghori ar y strategaeth newydd i Foderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg, ei mabwysiadu a gweithredu'r rhaglen waith gysylltiedig	<p>Moderneiddio Cymunedau Dygu and Darblygu'r Gymraeg</p> <p>Cytunwyd ar y strategaeth ac mae rhaglen yn cael ei rhoi ar waith yn unol â hynny.</p>	Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau
h) Ymchwilio i ddulliau o foderneiddio a datblygu darpariaeth ôl-16 a chyfleoedd dysgu er mwyn gosod cyfeiriad a mabwysiadu strategaeth ôl-16	Mae gwaith ar droed i ymchwilio i ddulliau o foderneiddio a datblygu darpariaeth ôl-16 a chyfleoedd dysgu er mwyn gosod cyfeiriad a mabwysiadu strategaeth ôl-16.	Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
i) Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n gallu rhedeg y Cynllun SHEP (Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol) yn ystod gwyliau'r haf	Bellach mae chwe ysgol yn eu lle i redeg y Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP) yn ystod gwyliau'r haf	Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau
j) Mabwysiadu strategaeth newydd ar gyfer darparu Gwasanaethau Llyfrgell a dechrau ei chyflwyno	Mae strategaeth ddrafft wedi'i pharatoi ar gyfer darparu Gwasanaethau Llyfrgell. Mae disgwyl i'r pwyllgorau drafod y drafft yn ystod 2024/25.	Yn parhau i mewn i 24/25
k) Sicrhau bod ein plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i leisio eu barn yn ystod y flwyddyn pan fydd y Cyngor yn ymgysylltu ac yn ymgynghori ar wahanol faterion yn ymwneud ag addysg	Mae fforwm Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn wedi ei sefydlu gyda dau gynrychiolydd o bob ysgol yn cael gwahoddiad i bob fforwm. Mae un fforwm wedi ei gynnal gyda chyflwyniadau a thrafodaethau ar fersiwn ddrafft y Strategaeth Tlodi, y Cynllun Cydraddoldeb Drafft a'r ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 24/25.	Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau
l) Adolygu Strategaeth yr Archifau ac Oriol Môn a'u cysoni fel bod modd helpu i barhau i gadw ein statws achredu	Roedd y ddwy strategaeth wedi'u cysoni er mwyn helpu i barhau i gadw'r statws achredu	Camau Gweithredu a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'u cwblhau



Tai

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
a) Parhau i ddatblygu cynlluniau ar gyfer Datblygiad Tai Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy	<p>Mae gwaith datblygu ar gyfer Datblygiad Tai Gofal Ychwanegol newydd wedi symud yn ei flaen yn dda yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Cyflwynwyd yr Achos Busnes Amlinellol i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Y bwriad yw llunio cais cyn-cynllunio yn gynnar yn 2024/25.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
b) Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn cael eu hadeiladu trwy Ddulliau Adeiladu Modern yn unol â Thystysgrif Perfformiad Sylfaenol Ynni gradd A	<p>Mae pob datblygiad newydd yn cydymffurfio â'r Dulliau Adeiladu Modern, gan gynnwys y stad newydd yn Llys Llwydiarth, Pentraeth.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
c) Cyfrannu at weithredu Strategaeth Tai Lleol y Cyngor drwy ddatblygu 30 o dai newydd a phrynu 15 o gyn-dai Cyngor.	<p>Mae 18 o Gyn-dai Cyngor wedi'u prynu yn ystod 2023/24 ac mae gwaith wedi'i wneud neu wrthi'n cael ei wneud i'w hychwanegu at y stoc sydd ar gael.</p> <p>Mae deg uned newydd yn Llys Llwydiarth, Pentraeth wedi eu cwblhau ac mae tenantiaid wedi symud i mewn. Mae gwaith wedi dechrau ar hen safle Ysgol Niwbwrch lle mae 14 o unedau newydd yn yr arfaeth. Mae deg uned wedi eu prynu ym Mharc y Coed, Llangefni. Mae wyth uned yn y broses o gael eu hadeiladu yng Ngharreglwyd, Caergybi.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
d) Defnyddio Premiwm Treth y Cyngor i hwyluso gwaith adfer 70 o gartrefi gwag, cynorthwyo hyd at 20 o brynwyr tro cyntaf sy'n dod i mewn i'r farchnad eiddo a rhoi cymorth i aelwydydd lleol sy'n ceisio tai sy'n fforddiol eu rhent ar y farchnad agored yn eu cymunedau.	<p>Bu Premiwm Treth y Cyngor yn gymorth i adfer 71 o gartrefi gwag yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Cyflwynwyd 18 grant i brynwyr tro cyntaf Ynys Môn yn ystod 2023/24, yn ogystal ag i wyth o drigolion ychwanegol a brynodd gyda chymorth cytundeb ecwiti a rennir gyda Tai Teg.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
e) Defnyddio data a gasglwyd yn Arolwg Cyflwr Stoc 2022 i nodi'r buddsoddiad sydd ei angen yn y dyfodol i sicrhau y gall Stoc Tai Cyngor fodloni Safonau newydd Ansawdd Tai Cymru.	<p>Yn dilyn penodi cwmni arbenigol, mae'r Cyngor wedi dechrau ar y gwaith o sefydlu Llwybrau Ynni Targed unigol ar gyfer yr holl stoc tai. Y disgwyl yw cwblhau'r gwaith hwn yn 2024/25.</p> <p>Cytunwyd ar y manylebau technegol ar gyfer y gwaith gofynnol a'r disgwyl yw y bydd y dogfennau tendro'n fyw ar Gwerthwchi Gymru erbyn diwedd Chwarter 2 2024/25.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
f) Lansio ein porth tenantiaid Digidol newydd er mwyn gwella'r dulliau cyswllt i'n tenantiaid	Mae'r Porth Tenantiaid Digidol bron wedi'i gwblhau ond nid yw wedi'i lansio. Y prif reswm am yr oedi yw'r gwaith uwchraddiadau TG ychwanegol yr oedd angen i'r tîm Tai eu cwblhau cyn lansio'r porth. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau ac mae'r prosiect yn llithro i mewn i waith 2024/25, gyda'r nod o lansio'r porth yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn.	Heb ei gwblhau
g) Paratoi ar gyfer y newid i system ddigidol yn 2025 drwy asesu ein systemau mynediad drws Stoc Tai'r Cyngor ac ailfodelu ein datrysiadau teleofal gwifrau caled i fod yn atebion cludadwy sy'n seiliedig ar anghenion unigol	<p>Mae gwaith i uwchraddio'r stoc Teleofal wedi dechrau gyda thua 900 o unedau wedi'u prynu gan y darparwr newydd, Chiptech.</p> <p>Cyhoeddodd BT na fydd y Newid i System Ddigidol bellach yn digwydd tan Ionawr 2027. Mae'r Cyngor, felly, ar y blaen ac mae ganddo amser i sicrhau bod y systemau newydd yn gweithio fel y dylent.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
h) Paratoi, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Tai Gwag newydd ar gyfer 2023-2028	Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar Strategaeth Tai Gwag yn ystod 2023/24. Pwrpas y Cynllun Strategol Tai Gwag yw sicrhau y cedwir nifer yr eiddo gwag cyn ised â phosibl ac annog perchnogion i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd.	Wedi'i gwblhau
i) Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a Chymru i gefnogi pobl sy'n dod i fyw i Ynys Môn o ganlyniad i loches drwy weithredu Pecyn Cymorth Gwasgaru Lloches Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru.	Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r DU i gefnogi pobl sy'n dod i fyw i Ynys Môn o ganlyniad i loches. Ni chafwyd ceisiadau am loches am ran helaeth o'r flwyddyn, ond mae'r Cyngor wedi derbyn nifer fach o geisiadau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau



Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
a) Cwblhau unedau busnes ychwanegol yn Llangefni a Chaergybi yn ogystal â sicrhau caniatâd cynllunio llawn ar fwriadau i adeiladu unedau busnes yn Amlwch.	Mae unedau busnes Llangefni a Chaergybi wedi eu cwblhau ac mae ganddynt denantiaid ynddynt neu maent ar gael i'w rhentu. Mae caniatâd cynllunio llawn i adeiladu unedau busnes yn Amlwch hefyd yn ei le.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
b) Ymgynghori ar y Strategaeth Ganol Trefi a Chynlluniau Creu Lleoedd newydd ar gyfer y pum tref yn Ynys Môn a sicrhau cyllid i gyflawni gwelliannau i Ganol ein Trefi	<p>Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar Strategaeth Gwella Canol Trefi newydd ym Medi 2023 yn sgil ymgynghoriad cyhoeddus</p> <p>Mae dwy swydd wedi'u llenwi er mwyn helpu i greu cynlluniau ar gyfer canol y trefi yn ogystal â chael gafael ar arian am y datblygiadau.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
c) Darparu grantiau'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear i ogledd Ynys Môn yn ogystal â gweithio ar y cyd â phartneriaid i fwrw ymlaen â datblygiad Parcdir Trefol	<p>Cytunwyd ar ganiatâd cynllunio llawn i greu unedau busnes yn Amlwch. Mae cais cynllunio llawn ar gyfer datblygiad parcdir trefol gyda Chymdeithas Amlwch wedi ei gyflwyno.</p> <p>Mae grantiau cymunedol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear wedi cael eu dosbarthu yng ngogledd Ynys Môn yn ystod y flwyddyn. Ceir rhagor o wybodaeth am Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn ar wefan y cyngor</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
d) Gweithio gyda Stena, Llywodraeth Cymru a'r DU a Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i sicrhau cyfleoedd buddsoddi i Borthladd Caergybi	<p>Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, Stena, Llywodraeth Cymru a'r DU i chwilio am gyfleoedd buddsoddi i Borthladd Caergybi.</p> <p>Sicrhawyd arian tuag at adfer Morglawdd Caergybi. Mae'r Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn wrthi'n cael eu datblygu i'w cyflwyno yn 24/25.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
<p>e) Cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sefydlu parth tollau diogel yng Nghaergybi a safleoedd eraill ar Ynys Môn</p>	<p>Sicrhodd Cyngor Môn a Stena Line Statws Porthladd Rhydd yn 2023 ac yna gyflwyno Achos Busnes Amlinellol am Borthladd Rhydd Môn, prosiect trawsnewidiol sydd ar fin ysgogi twf economaidd a chreu nifer o gyfleoedd swyddi ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru.</p> <p>Yn yr Achos Busnes Amlinellol, a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ceir manylion helaeth am sut y mae Porthladd Rhydd Ynys Môn yn bwriadu gweithredu. Yn ogystal â hyn, diffinnir lleoliadau treth a thollau cychwynnol penodedig fydd o fewn ffin y Porthladd Rhydd.</p> <p>Mae rhagor o wybodaeth am y Porthladd Rhydd, gan gynnwys diweddariadau ar y gwaith a wnaed yn Prosperity Parc (hen safle Alwminiwm Môn) ar gael ar Wefan Porthladd Rhydd Ynys Môn.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>
<p>f) Cydweithio â Rhaglenni Twf Gogledd Cymru a dylanwadu arnynt i sicrhau'r manteision lleol gorau posibl</p>	<p>Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn aelod o amrywiol Fyrddau Rhaglen o fewn y Bwrdd Uchelgais i ddylanwadu ar y prosiectau a ddarperir ar Ynys Môn i wneud y mwyaf o gyfleoedd a buddion.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>
<p>g) Gweithredu Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn llwyddiannus.</p>	<p>Mae gan y Cyngor dîm cyflawni ar waith ar gyfer y rhaglen.</p> <p>Mae'r rhaglen yn cynnwys datblygu eiddo gwag yng Nghaergybi, trawsnewid blaenau'r traeth ar Draeth y Newry, ehangu Cyfadeilad yr Empire, ehangu Canolfan Celfyddydau Ucheldre, trawsnewid Sant Cybi ac Eglwys y Bedd, gwneud gwelliannau i fannau ymwelwyr ym Morglawdd Caergybi ac adnewyddu eiddo yng nghanol y dref. Ceir rhagor o wybodaeth am y datblygiadau a diweddariadau ar y cynnydd gyda'r gwaith ar Wefan y Cyngor.</p> <p>Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn rhan o agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU a bydd yn rhoi cyfanswm o £16.1 miliwn o gyllid i'w fuddsoddi'n lleol ar Ynys Môn erbyn mis Mawrth 2025.</p> <p>Gyda chymorth partneriaid lleol, dewisodd Cyngor Sir Ynys Môn 25 o brosiectau o bob rhan o Ynys Môn iddynt gael cyllid o ddyraniad Ynys Môn o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar Wefan y Cyngor.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
h) Sicrhau bod y ffyrdd yn ddiogel i'w defnyddio ac yn cael eu cynnal a'u cadw	<p>Parhau i fod mewn cyflwr da oedd hanes ffyrdd Ynys Môn yn ystod 23/24. Roedd y tri dangosydd yn ymwneud â chyflwr y ffyrdd yn Wyrdd yn erbyn y targed –</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Canran y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael - 2.7% 2. Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael - 2.3% 3. Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael - 7.5% 	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
i) Rheoli asedau morol a chefn gwlad y Cyngor yn ddiogel ac yn effeithiol gan gynnwys rheoli Ynys Llanddwyn, Gwarchodfa Natur Leol Nant y Pandy a Pharc Gwledig Morglawdd Caergybi.	<p>Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod asedau morwrol a chefn gwlad y Cyngor yn cael eu rheoli'n ddiogel. Mae peth o'r gwaith a wnaed yn ystod 23/24 yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a chadw a nodi gwaith cynnal a chadw ym Mhorth Amlwch, Pier San Siôr a Phier Biwmares, • Adolygu ffioedd a thaliadau'r angorfeydd morwrol, cofrestriadau cychod a lansiadau • Agorwyd swyddfa newydd i wardeniaid ym Mharc Gwledig y Morglawdd • Cynhaliwyd arolygon coed yn Nant y Pandy a chael gwared â choed anniogel • Cynlluniau a chyllid wedi'u rhoi yn eu lle i uwchraddio'r llwybr pren presennol yn Nant Eirias yn ystod 2024/25 	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
j) Gosod pontynau glanio newydd ym Mhorth Amlwch a Phier San Siôr yn ogystal â gwella llwybrau troed, cyfleusterau beicio, cyfleusterau ailgylchu, manau gwefru cerbydau trydan a mynediad ac arwyddion ledled yr ynys.	<p>Sicrhawyd cyllid Y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac mae gwaith wedi dechrau i wella pum treial arfordirol cylchol, cyfleusterau beicio a mwy.</p> <p>Gohiriwyd gosod pontynau glanio newydd ym Mhorth Amlwch a Phier San Siôr a dygwyd cyllid ymlaen i 2024/25.</p>	Rhywfaint o waith wedi'i gwblhau ond y gwaith yn parhau i mewn i 24/25

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
<p>k) Mabwysiadu a chyflwyno Cynllun Rheoli AHNE a Chynllun Cyrchfan, a hynny mewn ymgynghoriad â phartneriaid a thrigolion</p>	<p>Lansiwyd yn llwyddiannus Gynllun Rheoli AHNE newydd yn ystod y flwyddyn. Pwrpas Cynllun Rheoli'r AHNE yw gwerthuso a phennu nodweddion arbennig yr AHNE, ac mae'n nodi pa gamau sydd eu hangen i sicrhau bod y rhinweddau hyn yn cael eu cadw a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.</p> <p>Cafodd Cynllun Rheoli Cyrchfan ei lansio yn ystod y flwyddyn, hefyd. Mae'r cynllun hwn yn ceisio gwella ysbryd o gydweithio a meddwl cyfannol i ddatblygu arlwy sy'n gwella'r rhinweddau allweddol hyn ac yn rhoi manteision economaidd a chymdeithasol i'r cymunedau lleol.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>l) Dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a newid parthau 30mya i barthau 20mya ac ymgynghori â chymunedau penodol (sydd wedi'u heithrio o'r rheol 20mya) i gyflwyno ardaloedd 20mya mewn ardaloedd poblog (adeiledig)</p>	<p>Cafodd yr holl barthau 20mya eu nodi a'u newid yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>m) Cyflawni gwelliannau seilwaith twristiaeth fel rhan o Raglen Ariannu Y Pethau Pwysig 2</p>	<p>Cwblhawyd prosiect Pethau Pwysig Ynys Môn oedd yn gwella cyfleusterau cyhoeddus ym Menllech, Porth Swtan, Trearddur a Phorth Dafarch yn ystod 23/24.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>n) Croesawu 50 o longau mordeithio i'r ynys a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar weithgareddau Llongau Mordeithio ar y tir</p>	<p>Llwyddodd Llongau Mordeithiau i ddocio ym Mhorthladd Caergybi drwy gydol y tymor a chroesawyd gweithgareddau ar y tir.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
<p>o) Cynyddu gwaith monitro meysydd parcio a strydoedd sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn annog ymddygiad da ymwelwyr o ran parcio</p>	<p>Bu mwy o fonitro meysydd parcio a strydoedd y Cyngor drwy gydol 23/24. Dim adroddiadau o faterion difrifol ac ymddygiad da gan fwyafrif helaeth yr ymwelwyr.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>p) Gweithredu Cod Ymddygiad Afon Menai i sicrhau y caiff y Fenai ei rheoli'n ddigonol ac yn effeithiol</p>	<p>Cynhaliwyd adolygiad o'r tîm morwrol ac mae cynllun gwella wedi'i ddatblygu i weithredu a rheoli Cod Ymddygiad Afon Menai yn effeithiol. Bydd y Cynllun Gwella'n cael ei drafod gan y Pwyllgor Gwaith yn 2024/25</p>	<p>Wedi'i ohirio oherwydd gwaith adolygu'r tîm arforol. Gwaith yn parhau i mewn i 24/25</p>



Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
a) Buddsoddi yn ein hadeiladau i wella effeithlonrwydd ynni, lleihau'r defnydd o ynni, a lleihau allyriadau carbon y Cyngor	<p>Mae'r Cyngor wedi parhau i weithredu ei raglen ReFit i osod mesurau effeithlonrwydd ynni ac mae gwaith datblygu'r Porthladd Solar Ceir yn parhau.</p> <p>Er mwyn parhau i fuddsoddi yn ein hasedau, mae'r Cyngor wedi cael £14M mewn grant Gwres Carbon Isel i fuddsoddi mewn pypiau gwres ffynhonnell aer, mesurau perfformiad ynni a gwaith uwchraddio seilwaith mewn 27 o leoliadau ar draws yr Ynys.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
b) Cyflawni ein cynllun trawsnewid fflyd trwy gynyddu nifer y cerbydau trydan yn ein fflyd a chynyddu'r defnydd a wneir ohonynt wrth ddarparu ein gwasanaethau	<p>Ehangodd ein fflyd cerbydau trydan gyda 22 o gerbydau'n cael eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn, O'r herwydd, cynyddu ei maint i 10% o'r fflyd gyffredinol.</p> <p>Defnyddiwyd y fflyd cerbydau trydan gan staff y cyngor i yrru 120,466 o filltiroedd yn ystod 2023/24, gan leihau'r allyriadau carbon o ganlyniad i ostyngiad yn y defnydd a wnaed o'r fflyd petrol, disel ac LPG.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
c) Newid sut rydym yn gweithio i leihau'r defnydd a wnawn o ynni ac allyriadau carbon e.e. trwy symud i ddatrysiadau TG yn y cwmwl	<p>Gwnaethpwyd llawer o waith i foderneiddio ein systemau TG a chronfeydd data yn ystod y flwyddyn. Cafodd caledwedd, gan gynnwys gliniaduron a gweinyddwyr, eu huwchraddio i offer mwy newydd a mwy effeithlon. Symudodd y Cyngor hefyd dair cronfa ddata TG fawr i dechnoleg cwmwl. Bydd y cam hwn yn helpu i leihau allyriadau carbon ar y safle yn ogystal â chynyddu effeithlonrwydd a gwydnwch y tair system.</p> <p>Dechreuwyd hefyd ar ragor o waith i symud mwy o systemau i dechnoleg cwmwl yn ystod 2023/24 a'r disgwyl yw y cânt eu cwblhau yn 2024/25.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
d) Gweithio tuag at darged Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% erbyn 2025	Llwyddodd y Cyngor i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 64.67% yn ystod 2023/24, y gyfradd uchaf ers sawl blwyddyn. Mae gwaith yn parhau tuag at gyrraedd y targed ailgylchu o 70% erbyn 2025.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
<p>e) Ceisio sefydlu Strategaeth Economi Gylochol mewn partneriaeth â Menter Môn i gyfrannu at wella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff ar draws Ynys Môn</p>	<p>Sicrhawyd arian grant yr Economi Cylchol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Y cynllun yw gweithio gyda Menter Môn i sefydlu lleoliadau trwsio ar yr Ynys yn ystod 2024/25.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>
<p>f) Sicrhau teithio cynaliadwy drwy weithredu cynlluniau teithio llesol yn Lôn Graig i Lôn Refail, Llanfairpwll, a gwelliannau llai eraill i'r rhwydwaith teithio llesol.</p>	<p>Gyda chefnogaeth grant y prif gais Teithio Llesol gan Lywodraeth Cymru, cynhaliwyd gwaith i wella darpariaeth teithio llesol yng Nghaergybi a Bae Trearddur i wella isadeiledd ar gyfer cerddwyr a beicwyr, a chodi ymwybyddiaeth teithio llesol rhwng y ddau anheddiad.</p> <p>Drwy'r rhaglen teithio llesol a chefnogaeth ariannol o £1.74m gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau mewn isadeiledd er mwyn annog teithio lleol carbon isel. Gyda phrif gynllun yng Nghaergybi i Fae Trearddur ar fin cael ei chwblhau, cynhwysodd y gwelliannau i osod llwybr aml ddefnydd newydd drwy lledu'r lled presennol, croesfannau newydd a gosod arwyddion i godi ymwybyddiaeth teithio llesol yn yr ardal.</p> <p>Trwy'r grant craidd fe gwblhawyd gwaith man welliannau yn Amlwch, Malltraeth ac Y Fali er mwyn gwella diogelwch yr holl ddefnyddwyr drwy cymysgfa o welliannau yn y setliadau gan gynnwys: gwella gwyneb y llwybr, gwella croesfannau, arwyddion newydd ble yn briodol, ail-marcio'r ffordd, ac adnewyddu'r parth cyhoeddus yn benodol yn Malltraeth.</p> <p>Yn ogystal â'r gwaith ar y ddaear, fe barhawyd i weithio ar astudiaethau blaen ddatblygu yn ardal Porth Amlwch i Amlwch, Benllech, a Phont Marcwis i Niwbwrch ble chynnalwyd ymgynghoriadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn. Hefyd parhawyd gyda dyluniadau manwl yn Llanfairpwll a dechrewyd astudiaethau yn ardal Gaerwen - Llanddaniel ac Llanfihangel yn Nhowyn - Y Fali.</p>	<p>Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau</p>

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
g) Defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru a pharhau i weithredu'r Cynllun Mannau Gwefru drwy osod manau gwefru cerbydau trydan mewn gwahanol leoliadau	<p>Mae manau gwefru cerbydau trydan yn gyflym a osodwyd gan y cyngor sir yn boblogaidd gyda thrigolion ac ymwelwyr.</p> <p>Yn ystod y 12 mis diwethaf maent wedi'u defnyddio bron i 5,000 o weithiau - gan sicrhau y gwefrir y cerbydau am 390,768 o filltiroedd o deithio - sy'n cyfateb i deithio o amgylch y Ddaear 15 o weithiau. Mae hyn wedi atal 75 tonnell o garbon rhag cael ei ryddhau i'r atmosffer.</p> <p>Mae modd gweld map gyda lleoliadau holl fannau gwefru cerbydau trydan Ynys Môn ar Wefan ZapMap a rhestr gyfredol o fannau gwefru'r cerbydau ar wefan y Cyngor.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
h) Parhau gyda gwaith cynnal y rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybr yr arfordir	Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy , yn ogystal â chydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chynghorau Cymuned Lleol i gynnal y llwybrau cyhoeddus a'r llwybrau arfordirol i safon mor uchel â phosibl.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
i) Cyflwyno prosiectau i wella bioamrywiaeth a gorchudd coed ar draws Ynys Môn a mapio ardaloedd addas ar gyfer ailblannu coed	Mae prosiectau i wella bioamrywiaeth wedi parhau ar draws yr ynys gyda phrosiectau ar y gweill i wella pyllau bywyd gwylt ym Mharc Gwledig y Morglawdd a datblygiadau natur a chynefinoedd newydd. Mae prosiectau plannu coed, hefyd, wedi arwain at blannu 2000 o goed yng Nghaergybi, Bodorgan, Benllech ac Aberffraw.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
j) Datblygu strategaeth 'Rheoli perygl llifogydd lleol' i nodi a blaenoriaethu ymyraethau tymor hir ar draws Ynys Môn.	Mae'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd bellach ar ffurf drafft terfynol a bydd yn dilyn proses ymgynghori cyhoeddus y Cyngor yn Ch2 2024/25 ac yna broses fabwysiadu'r Cyngor. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd gwaith mabwysiadu'r strategaeth yn llawn wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2025.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
k) Cyflwyno cynlluniau rheoli llifogydd ar raddfa fach ar draws yr ynys a datblygu bwriadau ariannu ar gyfer ymyraethau risg llifogydd mawr	<p>Cyflwynwyd dau gynllun bach a chytunwyd ar y dyluniad ar gyfer pedwar cynllun bach arall.</p> <p>Mae'r gwaith dylunio a datblygu ar ddau gynllun mawr yn parhau, gydag astudiaethau'n parhau mewn pedwar lleoliad arall y gellid bod angen cynllun ar raddfa fawr ar eu cyfer.</p>	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Camau Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
l) Sefydlu tîm polisi mewnol i gefnogi a pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol	Mae Tîm Polisi Cynllunio wedi'i recriwtio ac mae bellach yn ei swydd. Mae Cytundeb Cyflawni drafft wedi'i baratoi a fydd yn cyfrannu at greu Cynllun Datblygu Lleol newydd.	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
m) Ymgysylltu â datblygwyr prosiectau ynni mawr a rhanddeiliaid eraill i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer manteision economaidd-gymdeithasol trawsnewidiol i'r ynys, gan fabwysiadu'r egwyddor agosrwydd a sicrhau manteision cymunedol a pherchnogaeth leol	Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â datblygwyr a rhanddeiliaid allweddol ar brosiectau ynni mawr. <ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau gyda Llywodraeth y DU cyn prynu safle Wylfa ac wedi hynny, yn ogystal â chyda Great British Nuclear • Ymgysylltu â llawer o rhanddeiliaid allweddol â diddordeb gan gynnwys yr Adran dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ), M-Sparc, Prifysgol Bangor, Coleg Menai, Menter Môn a mwy • Fforymau niferus Ynys Ynni gyda chyflwyniadau gan Great British Nuclear ar ddatblygiadau ynni a Stena ar y Statws Porthladd Rhydd • Cynrychiolaeth niferus mewn digwyddiadau yn Llundain (Wythnos Niwclear, wythnos arloesi Cymru) a Chaerdydd (Ynni Niwclear ac Economi Cymru) 	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau
n) Cymryd rhan lawn yn y prosesau caniatáu statudol ar gyfer unrhyw brosiectau ynni carbon isel	Yn ystod y flwyddyn hon mae'r Cyngor wedi cymryd rhan lawn drwy'r rhaglen Ynys Ynni ac wedi rheoli ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses ganiatáu statudol. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar: <ul style="list-style-type: none"> • Hyb Hydrogen Caergybi • Morlais • Fferm Solar Traffwll • System Storio Ynni Batri Carrog • Materion cynllunio mewn perthynas â'r Safleoedd Porthladd Rhydd • Ffermydd gwynt Morgan a Mona 	Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 23/24 wedi'i gwblhau

Perfformiad Cyffredinol Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae 92% o ddangosyddion perfformiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn perfformio uwchlaw'r targed neu o fewn goddefiant o 5% i'w targedau am y flwyddyn. Dyma'r adroddiad cerdyn sgorio sy'n perfformio orau ers ei gyflwyno.

Dengys perfformiad blwyddyn ar ôl blwyddyn y Cyngor ar gyfer yr holl ddangosyddion cymaradwy (cyfanswm o 35) bod 20 (57%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 13 (37%) wedi dirywio a 2 (6%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

At ei gilydd, roedd 89% o'r dangosyddion a ddefnyddir i fonitro'r Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn targed y flwyddyn.

Mae'r adroddiad cerdyn sgorio'n amlygu rhai o'r perfformiadau da. Ymhlith rhai o'r uchafbwyntiau hyn mae:

- Dangosyddion y Gymraeg mewn Ysgolion
- Dangosyddion Canolfan Hamdden MônActif a NERS;
- Nifer y tai gweigion a gafodd eu haildefnyddio ar ôl bod yn segur;
- Dangosyddion Gwasanaethau Oedolion;
- Dangosyddion y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Dangosyddion Rheoli Gwastraff,
- Dangosyddion Priffyrdd; a
- Y Dangosyddion Cynllunio 5.5 Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu rhai meysydd sy'n tanberfformio yn erbyn targedau.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu tri maes a danberfformiodd yn erbyn targedau a osodwyd. Trafodwyd y rhain gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith a bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn arwain y gwaith gwella ac yn ei fonitro. Y dangosyddion yw:

1. Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen;
2. Canran y rhai sy'n gadael blwyddyn 11 ac sy'n NEET; a
3. Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i ddarparu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl

Mae rhagor o wybodaeth, yn cynnwys yr holl ddangosyddion, i'w gweld yng [Ngherdyn Sgorio Ch4 ar gyfer 2023/24](#)

Hunanasesiad Corfforaethol

Fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, nodwyd gwaith monitro perfformiad pob awdurdod lleol ar sail hunanasesiad.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn 9 ohonynt) gwblhau hunanwerthusiad - gan sgorio eu perfformiad ar feysydd a nodwyd ac a ystyriwyd yn bwysig er mwyn mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu perfformiad yn erbyn un o'r pum maen prawf ac wedi hynny fe'u heriwyd ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig a elwir yn broses Adolygu Gwasanaeth:

Nododd yr asesiad cyffredinol yn dilyn y broses Adolygu Gwasanaeth y graddfeydd a ganlyn:


Maes a nodwyd	Sgôr y Perfformiad
Cynllunio Gwasanaethau	Yn mynd y tu draw i Ddisgwyliadau
Cynllunio Ariannol	Yn mynd y tu draw i Ddisgwyliadau
Cynllunio'r Gweithlu	Yn mynd y tu draw i Ddisgwyliadau
Rheoli Asedau	Yn Bodloni Disgwyliadau
Rheoli Contractau a Chaffael	Yn Bodloni Disgwyliadau
Rheoli Risg ac Archwiliadau	Yn Bodloni Disgwyliadau
Rheoli Perfformiad	Yn mynd y tu draw i Ddisgwyliadau



Rhagor o wybodaeth ar [Hunanasesiad Corfforaethol](#)

Alldro Refeniw Ariannol 2023/24

Mae rhaniad yr alldro refeniw fesul gwasanaeth am y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2024, gan gynnwys y Cyfrif Refeniw Tai, i'w weld yn y siart isod:



Rhagor o wybodaeth am yr [Alldro Refeniw am 23/24](#) a'r [CRT](#)